# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 21 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci-Williams, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), C. Stallard, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac MR Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd c. Iannucci-Williams yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

CYMERADWYWYD – cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol ynghylch Cofnod Rhif 1003, tudalen 3, Ceisiadau i'w Hystyried: Gwasanaethau Bws: dylid newid 'Sefydliad Browns' y cyfeirir ato yn y cofnodion i 'Sefydliad Bevan'.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD DIWEDDARU: CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad diweddaru ar y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) (gan gynnwys y gwaith atgyweirio arfaethedig ar y ffordd fynediad sy'n arwain at CAGC y Cyngor, Llandŵ, fel y manylir arno yn Atodiad A i'r adroddiad).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys y geirda, yr adroddiad a'r atodiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Y dylid nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Blynyddol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 2024/25.

(3) Cymeradwyo Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.